# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 17 Rhagfyr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Hybu Ffordd Iach a Heini o Fyw

**C11 Christine Chapman:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hybu ffordd iach a heini o fyw yng Nghymru? (OAQ21208)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu ffordd iach a heini o fyw, sydd wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision iechyd cadw'n heini, i gynyddu cyfleuon ar gyfer gweithgaredd corfforol ac i leihau'r rhwystrau sy'n llesteirio byw'n iach. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun ar waith ar hyn o bryd.

### Polisi ar Ddiwylliant

**C12 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi ei weinyddiaeth ar ddiwylliant? (OAQ21207)

**Y Prif Weinidog:** Polisi Llywodraeth y Cynulliad yw datblygu Cymru gynaliadwy, gynhwysol a chyfartal drwy hybu celfyddyd nodedig a chreadigol. Mae ein strategaeth gelfyddydol 'Creative Wales: Cymru Greadigol' yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer datblygiad celfyddyd yng Nghymru a'n blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog 'Iaith Pawb' yn rhoi manylion ein polisi iaith Gymraeg.

### Ymuno â'r Ewro

**C13 Mick Bates:** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan a'r cynulliadau datganoledig eraill am yr effaith y bydd ymuno ag arian sengl Ewrop (yr ewro) yn ei chael ar economi Cymru? (OAQ21200)

**Y Prif Weinidog:** Caf drafodaethau rheolaidd gyda'r Llywodraeth a gweinyddiaethau eraill sydd wedi'u datganoli ar amrediad o faterion.

Y ffactor pwysicaf, sy'n sail i unrhyw benderfyniad gan y Llywodraeth ar aelodaeth o'r arian sengl, yw pa un a yw'r achos economaidd dros y DU yn ymuno yn un clir a diamwys. Mae'r Llywodraeth wedi dweud y cwblheir asesiad o'r pum prawf economaidd erbyn Mehefin 2003.

### Cyngor Sir Caerfyrddin

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fwriad Cyngor Sir Caerfyrddin i fuddsoddi £400 miliwn mewn strategaeth i greu a chadw swyddi yn y sir? (OAQ21222) [W]

**Y Prif Weinidog:** Cynllun y cyngor, a luniwyd ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru i fynegi'r bwriad o ddefnyddio gwerth £29 miliwn o arian cyfatebol i helpu i greu gwerth £450 miliwn o brosiectau gan greu 5,000 o swyddi a diogelu 2,000 o swyddi eraill yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Mae'r strategaeth yn cynnig gweledigaeth a chynllun eglur i'w bartneriaid posibl.

**Hela gyda Chŵn yng Nghymru**

**C15 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr effaith y bydd ei pholisi ar hela gyda chŵn yn ei chael yng Nghymru? (OAQ21217)

**Y Prif Weinidog:** Trafodais y pwnc hwn yn gyffredinol gydag Alun Michael, y Gweinidog Gwladol dros Faterion Gwledig, fis diwethaf.